

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 14 GORFFENNAF 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Gareth John, Andy King, Miriam Moules (video link) and Emlyn Schiavone (video link)

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
 Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid

110. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Heledd ap Gwynfor, Ioan Matthews, Jeff Thomas a Wyn Thomas.

111. Datgan Buddiannau

Dim.

112. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer Mehefin 2022.

- (i) Cyngor Tref. Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Andy King y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£71,449.73** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Gareth John y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.
- (ii) Y Siop De. Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Andy King y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£2573.43** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Gareth John y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.

113. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i 30 Mehefin 2022.

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 30 Mehefin 2022 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	66,108.50
HSBC Cyfrif Wrth Gefn	458,678.79
Cyfanswm yn y banc	524,787.29

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 30 Mehefin 2022:

Lwfans y Maer	-	£3,002.04
Ras y Maer	-	£6,472.13
Siop De Parc Caerfyrddin	-	£22,283.56

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 30 Mehefin 2022 oedd £147,964
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £40,765. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £107,199.
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £788,855.58, ac mae £262,951.86 wedi'i dderbyn.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

114. Cysoniad Banc Chwarterol 30ain Mehefin 2022

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cysoniadau banc chwarterol ar gyfer y cyfrif cyfredol, y cyfrif wrth gefn a chyfrifon y Siop Te. Ni chodwyd unrhyw faterion, ac ar gynnig y Cyng. Emlyn Schiavone a eiliwyd gan y Cyng. Andy King, **CYMERADWYODD** y pwyllgor y cysoniadau.

115. Diweddariad chwarterol o'r gyllideb 30 Mehefin 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diweddariad chwarterol ar y gyllideb.

116. Trefniadau ar gyfer gwneud taliadau sy'n ddyledus ym mis Awst 2022

Gofynnodd Clerc y Dref am bwerau dirprwyedig i ddau aelod a'r Clerc i gymeradwyo cyfrifon i'w talu ym mis Awst, pan nad oes cyfarfod o'r pwyllgor i'w gynnal. Trafododd yr Aelodau a **PENDERFYNWYD** y dylid dirprwyo awdurdodi taliadau i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, un aelod arall a'r Clerc ar gyfer Awst 2022, gyda thaliadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ym mis Medi er gwybodaeth.

117. Niferoedd staff Gorffennaf 2022

NODODD yr Aelodau y diweddariad.

118. Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Esboniodd y Clerc fod y Pecyn Cymorth bellach wedi'i lansio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn peilot yn hwyr yn 2021. Mae'r camau nesaf a awgrymir fel a ganlyn:

- Sefydlu is-grŵp o gynghorwyr i symud y gwaith yn ei flaen yn lleol.

- Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu, yna gweithredu ar y blaenoriaethau hynny.
- Defnyddiwch y pecyn cymorth eto yn nes ymlaen i wirio cynnydd.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r ffordd ymlaen a chynigiodd y Cyng. Gareth John y dylid **CYMERADWYO** r ffordd ymlaen a awgrymwyd. Dylid gwahodd dau aelod o'r Pwyllgor Cyllid, gydag un aelod o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol i ffurfio is-bwyllgor gyda swyddogion dethol o'r Cyngor Tref. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Andy King, ac roedd yr holl aelodau o blaid.

119. Adolygiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd

Trafododd y Pwyllgor y balansau diwedd blwyddyn a sut y gellid dyrannu'r arian i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Ystyriwyd defnyddiau posibl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer ychwanegiadau a gwelliannau i fwynderau cyhoeddus o amgylch y dref a chyfeiriwyd at brosiectau posibl. Er mwyn caniatáu amser i gwmpasu prosiectau posibl yn llawn, cynigiwyd gan y Cyng. Emllyn Schiavone ac eiliwyd gan y Cyng. Gareth John y dylid ychwanegu £100,000 i'r arian wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer mwynderau cyhoeddus a £50,000 i'r arian wrth gefn heb ei glustnodi i ddod â'r cyfanswm i'r isafswm a argymhellir o wariant o dri mis, sef £200,000. 'Roedd yr holl aelodau o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y mater i'r Cyngor.

120. Ymwelwyr o Lesneven, Cymdeithas Gefeillio Tref Caerfyrddin

Cyflwynwyd cais i'r pwyllgor i gefnogi ymweliad gan dref efeilliedig Caerfyrddin, Lesneven. Byddai'r ymweliad yn dathlu 40 mlynedd ers y gefeillio, a gofynnwyd i'r aelodau ystyried nodd digwyddiad yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn dilyn cyfarfod y Neuadd Sirol ar yr 17eg o Fedi. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r mater ac **ARGYMHELLWYD** mewn egwyddor y dylai'r Cyngor gefnogi'r cais.

Ar ddiwedd y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i Glerc y Dref, yn ei gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cyllid am ei holl gyngor a chefnogaeth i'r pwyllgor dros y saith mlynedd diwethaf. Hefyd dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Clerc i'r dyfodol a mynegodd ddiolchgarwch aelodau'r pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.